**CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 7 Chwefror, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.A. Cave, A.M. Collins, R. Crowley and L.O. Rowlands

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Cynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol: R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg), L. Newton (Caerdydd a Gweithrediad Iechyd Meddwl y Fro), H. Smith (Barnardos) a A. Barnaby (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned)
.

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD ANRHYDEDDUS O GYNRYCHIOLWYR Y SECTOR GWIRFODDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG

CYTUNWYD – BOD L. Newton yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd Anrhydeddus ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y W. Hennessy (Ymddiriedolwr Vale People First)

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

CYTUNWYD - CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. ARCHWILIO CYMRU: GWAITH PARTNERIAETH Y TRYDYDD SECTOR – CYNGOR BRO MORGANNWG (PW) –

CYTUNWYD –

(1) BOD y canfyddiadau allweddol sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o waith partneriaeth y Cyngor gyda'r trydydd sector, ac ymateb y Cyngor i gynigion yr

adolygiad ac Archwilio Cymru ar gyfer gwella fel y rhestrir yn yr adroddiad yn cael eu nodi.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, a ystyriodd y mater hwn yn eu cyfarfod ar 20 Ionawr 2022, yn cael eu nodi.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac arno i'r Cabinet i gymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ynghyd â sylwadau perthnasol gan Gyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru

EITEM AGENDA 6. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG – ASESIAD LLESIANT DRAFFT (PW) –

CYTUNWYD – BOD yr Asesiad Llesiant drafft yn cael ei nodi, gyda Swyddogion sy'n cynrychioli'r BGC wedi cael gwybod am farn y Pwyllgor ynghylch y cynnwys, y strwythur a'r casgliadau a nodir yn yr asesiad yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ar yr agenda.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.